Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bryngwran
# Bryngwran
# Caergybi
# LL65 3PP

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Bryngwran

Mae Ysgol Gymuned Bryngwran wedi ei lleoli yng nghanol pentref Bryngwran sydd tua chwe milltir o dref Caergybi ar Ynys Môn.

Darperir addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed.  Mae 60 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 10 o ddisgyblion oed meithrin rhan amser. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif ghyfrwng y dysgu a'r addysgu.  Fe'u haddysgir gan ddau o athrawon amser llawn ac un athrawes ran amser.  Daw 70% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg.  Nid oes disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.  Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae oddeutu 2% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae'r ysgol wedi adnabod 32% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2012.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymuned Bryngwran yn darparu amgylchedd teuluol a chefnogol sy'n blaenoriaethu lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac maent yn dangos agwedd ardderchog at ddysgu. Mae gan y disgyblion lais amlwg yn natblygiad yr ysgol wrth wneud penderfyniadau a chynllunio'r dysgu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau ffocws clir ar wella'r ddarpariaeth, safonau a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu'n barhaus ac maent yn arbrofi'n hyderus wrth gyflwyno strategaethau newydd. Mae'r addysgu o ansawdd da ac mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol a pherthnasol sy'n datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu yn yr ardal allanol ymhellach

A3 Sicrhau bod camau gweithredu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

A4 Mynd i'r afael â'r materion diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'i dull o hyrwyddo egwyddorion agweddau at ddysgu sy'n cyfrannu at ymglymiad a lles disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion islaw'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau datrys problemau yn effeithiol, er enghraifft wrth greu salad ffrwythau neu wrth fesur y pellter rhwng planedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n ofalus mewn gwersi ac yn barchus gyda'u cyfoedion. Maent yn cynnal trafodaethau aeddfed, er enghraifft wrth drafod mewn pâr neu wrth sgwrsio gydag ymwelwyr o'r gymuned. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhannu syniadau'n glir ac yn medru esbonio'u gwaith yn gynhwysfawr o ystyried eu hoed a'u gallu. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn medru egluro ffeithiau diddorol i ddisgrifio nodweddion anifeiliaid yn effeithiol. Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed ac yn llawn mynegiant wrth greu araith i gyfiawnhau mynd i ryfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau darllen cynnar llawer o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth glywedol i adeiladu geiriau yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith ac yn medru trafod eu llyfrau'n hyderus gan gynnwys nodweddion hoff gymeriadau. Mae disgyblion mwy abl yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio goslef yn effeithiol. Wrth drosglwyddo i gyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd medrus yn eu medrau darllen. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant ddisgrifio cymeriadau yn fanwl a thrafod nodweddion hoff awduron. Mewn gweithgareddau darllen rheolaidd, mae disgyblion yn ymchwilio i eiriau anghyfarwydd. Enghraifft dda o hyn yw'r ymchwil i'r gair 'magwraeth', yn sgil darllen nofel awdures o Gymru.

Mae llawer o ddisgyblion ifanc y cyfnod sylfaen yn mwynhau gweithgareddau marcio a defnyddiant ystod eang o adnoddau fel tywod tywynnu, eira ac eli eillio er mwyn ysgrifennu eu henwau a llythrennau. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu trwy amrywio brawddegau, gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn defnyddio ystod briodol o ffurfiau ysgrifennu fel adroddiad, rhestr, stori a sgript. Enghraifft greadigol o hyn yw ysgrifennu sgript rhwng Neil Armstrong a Buzz Aldrin ar eu hymweliad i'r lleuad. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi yn effeithiol. Yn yr ychydig o esiamplau gorau ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion yn defnyddio atalnodi a geirfa yn effeithiol i greu naws a chyffro yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymdrechu'n annibynnol i sillafu geiriau yn gywir ac maent yn ymestyn eu paragraffau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddatblygu geirfa a brawddegau cyfoethog bob tro.

Mae'r rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Maent yn cymhwyso'u medrau yn gyson wrth ddatrys problemau diddorol a phwrpasol. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio

strategaethau cyfrifo yn effeithiol sy'n addas i oed a gallu'r disgybl. Gall disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen gyfri fesul 2, 5 a 10 er mwyn rhifo nifer y darnau tân gwyllt sydd mewn bocs. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau rhif ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys dadansoddi amserlen trên y faciwîs o Lerpwl i Gaergybi. Mae'r mwyafrif ar frig cyfnod allweddol 2 yn adio a thynnu rhifau yn hyderus ac yn lluosi pwyntiau degol yn gywir. Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau mathemateg yn llwyddiannus wrth ddefnyddio medrau mesur a siâp. Maent yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn ystod o gyd-destunau cyffrous fel pwyso ffrwythau o Affrica yn y cyfnod sylfaen ac wrth fesur manwl yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn creu bocs mwgwd nwy'r Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus wrth ddefnyddio meddalwedd amrywiol i gyflwyno eu gwaith. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio llechen electroneg i gofnodi eu gwaith ymarferol yn annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn medru cofnodi cyfarwyddiadau i annog dyfalbarhad cymeriad yn annibynnol. Gall bron pob disgybl cyfnod allweddol 2 ddefnyddio cyfrifiaduron a llechi electronig i ymchwilio ac i gefnogi eu dysgu wrth animeiddio profiadau faciwî. Maent yn cydweithio fel dosbarth i drefnu ffeithiau am Gaerdydd ar feddalwedd ar-lein yn fedrus. Mae disgyblion yn cofnodi eu gwaith, profiadau a hyrwyddo llais y disgybl yn rhyngweithiol ar arddangosfeydd yn feistrolgar.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron bob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u gwaith. Maent yn arddangos agweddau a chymhelliant eithriadol tuag at eu dysgu. Mae llais y disgybl wedi'i dreiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Enghreifftiau hynod effeithiol yw'r dull hunanasesu a geir trwy waith y Clwb 3C sef, 'Cadw'r Cogiau'n Cylchu'. Mae'r disgyblion wedi perchnogi'r cyfrifoldeb dros eu gwaith yn feistrolgar. Gall disgyblion ar draws yr ysgol drafod eu medrau fel annibyniaeth, medrau meddwl a dyfalbarhad yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol system adborth effeithiol iawn sy'n annog disgyblion i wella eu gwaith yn annibynnol. Gall disgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol. Maent yn ymfalchïo yn y systemau sydd ganddynt er mwyn gwella eu gwaith. Er enghraifft, mae cymeriadau a grëwyd ar y cyd gan y disgyblion yn annog annibyniaeth a hyder i ailymdrechu er mwyn datblygu gwaith ymhellach. Mae'r ethos hwn wedi lledaenu i holl fywyd yr ysgol, er enghraifft wrth iddynt gymryd cyfrifoldebau am ddiogelwch ac arddangosfeydd rhyngweithiol.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda yn y gwersi a thu allan i'r dosbarth. Mae eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn ardderchog ac yn gryfder arwyddocaol ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r disgyblion yn cefnogi ei gilydd wrth ddatrys problemau. Maent yn hynod foesgar, yn rhannu gyda'i gilydd, yn aros eu tro ac yn gwrando'n astud ar syniadau eraill. Enghraifft da o hyn yw pan mae'r disgyblion yn defnyddio offer creadigol penagored yn ystod amser cinio. Maent yn dangos parch a gofal tuag at bawb ac yn barod i gynnig help llaw i eraill. Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd heintus tuag at ddysgu a'u gwaith. Maent yn dangos parch tuag at oedolion ac yn ystyriol o anghenion eraill. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni ac yn hyderus i droi at ffrind am gymorth.

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder tuag at yr ysgol ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn arwain ar ystod eang o gyfrifoldebau i hybu a chefnogi eu lles eu hunain a'u cyfoedion. Enghraifft nodweddiadol yw gwaith y 'Criw DaD', sef 'Criw Doeth a Diogel', sy'n arwain yn gwbl hyderus ynglŷn â diogelwch o gwmpas yr ysgol gan herio oedolion i ddilyn gweithdrefnau'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion moesol cydwybodol, er enghraifft wrth godi arian ar gyfer adeiladu ffynnon ddŵr yn Kenya yn sgil ymchwilio i fywyd yn Affrica. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau iachus wrth gadw'n heini ac wrth ddewis byrbryd a chynnwys pecynnau cinio.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Cynllunnir cwricwlwm creadigol sy'n arwain gweithgareddau ysgogol. Er enghraifft, maent yn dysgu am bobl lai ffodus yn sgil ymweliad gan weithiwr teyrngarol, sy'n annog y disgyblion i feddwl ac i weithredu dros eraill. Mae athrawon yn sicrhau bod strategaethau cadarn ar waith ar draws yr ysgol i ddarparu lefel addas o her i bob lefel o allu.

Mae pob un o'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae perthynas agos rhyngddynt sy'n creu awyrgylch o barch ac ymddiriedaeth. Mae'r athrawon yn sicrhau eu bod yn gwrando ar syniadau'r disgyblion wrth gynllunio themâu a systemau hunanasesu. Mae hyn yn hyrwyddo perchnogaeth y disgyblion dros eu dysgu ac yn dylanwadu'n bositif ar ethos yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r disgyblion wedi penderfynu ar gynllunio arddangosfeydd rhyngweithiol ar draws yr ysgol. Mae gan bob athro amrywiaeth o strategaethau effeithiol i hyrwyddo dyfalbarhad a meithrin hyder i fentro. Mae'r dyhead i wella eu gwaith ymhellach yn elfen gyson o waith disgyblion. Mae pob oedolyn yn modelu iaith raenus yn effeithiol, ac yn manteisio ar gyfleoedd cyson i fwydo geirfa gyfoethog gan wella medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan athrawon ar draws yr ysgol ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliadau ar gyfer ysgrifennu estynedig cyfoethog yn ddigon cyson.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae cydbwysedd medrus rhwng tasgau sydd wedi eu harwain gan oedolyn a rhai sydd wedi eu hysgogi gan ddisgybl. Defnyddir systemau llwyddiannus i feithrin annibyniaeth wrth ddewis tasgau ac wrth sicrhau bod digon o gyfleoedd ac amser i gyflawni gweithgareddau'n annibynnol. Mae'r ffordd y mae'r athrawon yn annog y disgyblion i weithio a chyflawni gwaith i safon dda yn gryfder yn yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r profiadau sy'n ymestyn ac atgyfnerthu'r dysgu yn yr ardal allanol.

Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ac i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh trwy themâu ysgogol. Mae'r athrawon wedi cychywn addasu eu cynlluniau'n synhwyrol er mwyn paratoi ar gyfer datblygiadau'r cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac yn cael cyfleoedd i ymarfer eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mewn tasgau llythrennedd, mae'r athrawon yn annog disgyblion cyfnod allweddol 2 i bennu meini prawf llwyddiant yn annibynnol ac i asesu'r gwaith yn fanwl wrth osod y ffordd ymlaen yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'r ffordd ymlaen i wella'u gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, weithgar a chynhwysol. Mae'r staff yn creu ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais y disgyblion. Mae'r ysgol yn llwyddo i hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, tegwch a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae ymweliadau cyson gan y rheithor a chymdogion y gymuned er mwyn cynnal gwasanaethau a sesiynau am negeseuon y Beibl yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i gefnogi anghenion dysgu emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Maent yn gwneud hyn wrth gydweithio'n dda â nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Mae'r strategaethau a'r berthynas agos â theuluoedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder, ond tynnwyd sylw'r llywodraethwyr at fater allai effeithio ar les disgyblion

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am arferion bwyta ac yfed yn iach ac yn sicrhau cyfleoedd addas iddynt ymgymryd â sesiynau addysg gorfforol mewn canolfan leol.

Mae'r holl staff yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i sicrhau bod bron pob disgybl yn cyflawni'n dda. Mae'r ymyrraeth gynnar a gwerthfawr y mae'r disgyblion yn ei derbyn yn sicrhau eu bod yn llwyddo yn eu gwaith wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ystod effeithiol o raglenni a strategaethau ymyrraeth yn galluogi disgyblion a grwpiau i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer gwella bob amser yn glir. Defnyddir systemau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae'r athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth yn briodol i gynllunio a darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â nhw. O ganlyniad, maent yn medru arwain teuluoedd at gefnogaeth arbenigol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau drwy waith y criw DaD, y Criw Clên a Phartner y Pennaeth. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gweithgar ac i gyfrannu'n gyson o fewn eu cymuned. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio hanes a chwedlau lleol i ysgogi dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg drwy'r celfyddydau yn llwyddo i ddatblygu creadigrwydd y disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r portreadau Mona Lisa sy'n efelychu diddordebau unigol y disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cerddorol drwy weithgareddau cerdd, er enghraifft wrth gyfansoddi ensemble offerynnol. Mae disgyblion y 'Cymry Campus' yn weithredol iawn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gweledigaeth ac arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn sicrhau ffocws clir ar wella'r ddarpariaeth, safonau a lles y disgyblion. Llwydda i rannu hyn yn effeithiol gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Mae hi wedi creu cymuned deuluol

mewn amgylchedd gofalgar sy'n annog disgyblion i roi o'u gorau a lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi. Mae'r pennaeth yn hyderus i arbrofi a blaengareddau er mwyn darparu prosiectiau sy'n fanteisiol i'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm ymarferol i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan yr athrawon. Maent yn rhannu gweledigaeth ac yn hyrwyddo ethos cryf o waith tîm. O ganlyniad, mae cysondeb medrus wrth hyrwyddo strategaethau addysgu, ymddygiad a lles. Mae cyfrifoldebau'r staff wedi eu rhannu'n berthnasol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau symbylus sy'n eu hysbrydoli i feithrin brwdfrydedd at eu haddysg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o waith yr ysgol ac wedi datblygu hyder wrth herio'r ysgol. Maent yn dadansoddi ystod o wybodaeth ac yn perchnogi'r cyfrifoldebau am ansawdd y safonau, y ddarpariaeth a chyllid. Mae ganddynt wybodaeth fanwl am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Enghraifft dda o hyn yw'r modd maent wedi adnabod diffyg mewn agweddau o ddarllen a'r modd mae aelodau'r corff yn cefnogi'r disgyblion yn wythnosol i ddatblygu mynegiant ac ystyr yn eu darllen.

Mae'r ysgol wedi adnabod blaenoriaethau perthnasol i'w datblygu yn sgil prosesau huanarfarnu cadarn. Mae'r staff wedi dadansoddi ac ystyried ystod addas o dystiolaeth fel arsylwadau o wersi, dadansoddi data, edrych ar waith disgyblion a holi barn disgyblion. Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn y cynllun datblygu bob tro'n ddigon meintiol i alluogi arweinwyr i fesur cynnydd yn llwyr effeithiol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i holl staff yr ysgol. Mae hyn wedi cael dylanwad llwyddiannus ar wella'r ddarpariaeth a datblygu lles disgyblion. Mae'r staff wedi elwa wrth ymweld ag ysgolion eraill gan ddatblygu eu hyder i arbrofi wrth gyflwyno datblygiadau i'r cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn pontio profiadau a phrosiectau ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm newydd.

Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd pwrpasol o'r staff a'r adeilad. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod cyllideb a grantiau penodol i ddatblygu'r ddarpariaeth. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r defnydd o staff i gefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Gwneir defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i godi safonau'r grŵp bach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  20/06/2018